IOPC
Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct



# Ein heffaith ar bobl a phlismona

## 2023/24

**“Dw i’n teimlo fy mod i’n cael gwrandawiad o’r diwedd** ac nid yn llais unigol yn y mater hwn rhagor. Dw i wedi cael **rhyddhad fod rhywun diduedd wedi edrych i mewn i’r mater hwn**, ac eto diolchaf i chi am hyn…”

“Diolch - dw i wedi darllen y canlyniad nawr ac mae wedi adfer fy ffydd fod rhywun o’r diwedd **wedi gwrando arnaf i** a chymryd fy honiadau o ddifrif.”

“Fel teulu hoffem gydnabod y cymorth rydym wedi’i dderbyn yn ystod y broses ymchwilio… **Mae pawb rydym wedi siarad â nhw … wedi bod yn ddim byd ond caredig a chefnogol i ni** sydd wedi cael ei werthfawrogi’n fawr”.

**“Rydych chi wedi bod mor broffesiynol, eto i gyd yn gyfeillgar** yn eich holl ymdriniaethau, ac rwyf wedi cael argraff dda… byddaf yn ddiolchgar bob amser i mi gael pobl mor ddymunol i ddelio a nhw.”

“Rwyf newydd dderbyn a darllen eich adroddiad ac yn dymuno **diolch i chi am y ffordd drwyadl rydych wedi ymgymryd â’ch rôl.** Byddaf yn ei ailddarllen gan… [fy mod] yn dymuno cymryd pob un o’ch argymhellion i mewn.”

Adborth defnyddiwr gwasanaeth yn dilyn ymchwiliadau ac adolygiadau

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **5** |
| **Effaith - unigolion a chymunedau** | **6** |
| Unigolion | 8 |
| Cymunedau | 12 |
| **Effaith - atebolrwydd a dysgu** | **16** |
| Atebolrwydd | 18 |
| Dysgu | 22 |
| **Adroddiad Effaith SAYH yn 2023/24** | **26** |





# Croeso

Croeso i'n Hadroddiad Effaith 2023/24, sy'n rhannu storïau gwir o'r gwahaniaeth rydym wedi ei wneud i unigolion, cymunedau, a phlismona ledled Lloegr a Chymru. Cymerais i rôl Cyfarwyddwr Cyffredinol SAYH yn gynharach eleni ac rwyf wedi ymuno â sefydliad â llawer i fod yn falch ohono.

Gellir gweld pwysigrwydd ein gwaith gan yr effaith mae'n ei chael ar unigolion, cymunedau, plismona, a hyder cyhoeddus. Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys adborth gan bobl rydym wedi'u cynorthwyo trwy system gwynion yr heddlu ac enghreifftiau o sut rydym wedi gweithio gyda chymunedau a grwpiau i godi ymwybyddiaeth o SAYH. Mae achosion lle rydym wedi chwarae rhan mewn symud swyddogion nad ydynt yn ateb y safonau uchel a ddisgwylir ohonynt a hefyd lle rydym wedi canfod bod yr heddlu wedi gweithredu'n briodol, mewn amgylchiadau heriol yn aml. Yn olaf, gallwch ddarllen am rywfaint o'r dysgu o'n gwaith rydym wedi'i rannu i helpu gwella plismona.


Rydym yn gwybod bod rhagor i'w wneud. Cydnabu adolygiad annibynnol o SAYH a gomisiynwyd gan Swyddfa'r Cabinet, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2024, ein bod yn rhan hanfodol o'r system gymhleth sy'n dal yr heddlu'n atebol.  Gwnaeth argymhellion hefyd am welliannau ychwanegol i sut rydym yn gweithredu ac yn darparu ein gwasanaethau.

Mae'r argymhellion hynny wedi ffurfio ein cynlluniau trawsnewid am y blynyddoedd sydd i ddod, fydd yn ein helpu i wella sut rydym yn cyflawni ein rôl yn effeithlon ac yn effeithiol ymhellach, er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r heddlu a'r cyhoedd ehanagach fel ei gilydd.

Hoffwn ddiolch i bawb o'r rheini a weithiodd gyda ni dros y flwyddyn ddiwethaf am eu hamser a'u hymroddiad i wella plismona. Hoffwn i ddiolch hefyd i'r teuluoedd, achwynwyr, aelodau'r cyhoedd a gwasanaeth yr heddlu sy'n rhoi eu hymddiriedaeth a'u hyder yn y SAYH. Edrychaf ymlaen atom yn parhau i chwarae ein rôl mewn sicrhau'r safonau uchaf o blismona yn Lloegr a Chymru..



**Rachel Watson**
Cyfarwyddwr Cyffredinol



Mae wedi **adfer fy ffydd** bod rhywun o'r diwedd **wedi gwrando arnai**

**Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth**



# Ein heffaith - Unigolion

Mae ein defnyddwyr gwasanaeth yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd ac aelodau o'r heddlu. Mae llawer o'r bobl y daethom i gysylltiad â nhw wedi mynd trwy ddigwyddiadau trawmatig neu sy'n peri straen eisoes, a gall llywio trwy system gwynion yr heddlu fod yn brofiad anghyfarwydd a chythryblus. Gall fod yn adeg anodd iawn hefyd i'r rheini o dan ymchwiliad. Rydym yn cyfarwyddo ein holl ddefnyddwyr gwasanaeth trwy broses gwynion yr heddlu Rydym yn ymwybodol iawn nad yw'n ganlyniad ein hachosion yn unig, ond hefyd sut rydym yn cyflawni ein gwaith, sy'n cael effaith arwyddocaol ar brofiad unigolyn a'i ymddiriedaeth yn system gwynion yr heddlu.

# Cynorthwyo dyn oedd yn destun grym gormodol

Fe wnaethom ymchwilio i gŵyn gan ddyn a gafodd ei stopio a'i archwilio a dioddefodd rym gormodol gan yr heddlu. Roedd y swyddogion mewn cerbyd heddlu heb ei nodi, nid oeddent mewn iwniform ac ni wnaethant ddweud pwy oeddent. Roedd y dyn yn eistedd mewn car wedi'i barcio yn agos at ei gartref pan ddigwyddodd y digwyddiad. Tynnodd y swyddogion y dyn allan o'r car, ei orfodi i'r llawr, rhoi ei ddwylo mewn cyffion, a chwistrellu chwistrell analluogi yn ei lygaid. Honnodd un swyddog y gallai arogli canabis yn dod o'r car, ond ni chanfuwyd dim. Dangosodd gwiriad ar systemau heddlu i'r swyddogion nad oedd y dyn yn adnabyddus i'r heddlu.

Gwrthsafodd y dyn ymdrechion y swyddogion i'w archwilio, a cheisiodd dianc pan wnaethon nhw ddechrau defnyddio grym. Dywedodd wrthym ei fod yn ofni am ei fywyd yn ystod yr ysgarmes gan ei fod ym meddwl bod rhywun yn dwyn oddi arno. Cafodd ei roi mewn cyffion dwylo am 45 munud a'i arestio am rwystro'r heddlu. Cafodd ei ddadarestio'n ddiweddarach. Aeth y swyddogion â'r dyn i'r ysbyty oherwydd y cafodd ei gorff, wyneb a phen eu hanafu yn ystod y digwyddiad.

Dywedodd y dyn wrthym ei fod yn bryderus am ganlyniadau gwneud cwyn a bod ganddo ychydig o hyder yn y system gwynion. Nid Saesneg yw ei iaith gyntaf, felly fe wnaethom ddarparu cyfieithwyr i'w helpu i ddeall yr ymchwiliad i'w gŵyn. Dywedodd y dyn:

*"Hoffwn i ddiolch i chi a'ch tîm am y gwaith gwych a wnaethoch chi. Rhoddoch chi wybod i mi am bopeth yn brydlon, ateboch chi fy nghwestiynau i gyd ac roeddech yn ddymunol iawn ac o gymorth mawr i mi. Rydych yn cymryd agwedd broffesiynol iawn at eich gwaith...*

*Roeddech chi gyda mi o'r dechrau i'r diwedd a gallwn i gyfrif arnoch chi bob amser am driniaeth dda yn ogystal ag ymagweddu â'r mater yn ddynol ac â pharch. Rwy'n gwerthfawrogi'ch tîm yn fawr. Diolch i chi am bopeth…"*

Yn dilyn ein hymchwiliad, cafodd un swyddog ei ddiswyddo o'r llu ac mae wedi cael ei wahardd rhag gweithio mewn plismona. Derbyniodd ail swyddog rybudd ysgrifenedig.

### Adborth gan fam bachgen a gafodd ei stopio a'i chwilio

Fe wnaethom ymchwilio i gŵyn am yr heddlu yn stopio a chwilio bachgen Du. Roeddem yn awyddus i siarad â'r bachgen i gael ei adroddiad o beth ddigwyddodd a sicrhau bod gennym yr holl dystiolaeth i ymchwilio i'r mater. Roedd e'n betrusgar am fynychu cyfweliad â ni, felly cyfarfu ein hymchwilwyr ag ef o flaen llaw i'w wneud yn gyfforddus. O ganlyniad, cytunodd y bachgen i gael ei gyfweld oherwydd ei fod wedi cyfarfod â'n hymchwilwyr eisoes ac roedd yn gwybod â phwy y byddai'n siarad. Dywedodd ei fam:

*"Hoffwn i a [fy mab] ddiolch i chi am eich empathi a'ch amynedd. Rwy'n gwerthfawrogi sut roeddech chi oll mor groesawgar a charedig ataf i a [fy mab]...gadawodd [e] yn dweud mam siaradon nhw â mi mor barchus a charedig...."*

### Cynorthwyo tyst ifanc

Cafodd merch sy'n agored i niwed yn ei harddegau ei harestio dan amheuaeth o ymosod. Cafodd ei chymryd i ysbyty gan ddau swyddog heddlu oherwydd ei bod wedi dweud wrth swyddogion ei bod wedi cymryd gorddos. Fe wnaethom ymchwilio i bryderon am driniaeth y swyddogion o'r ferch tra roedd hi dan eu gofal. Roedd hyn yn cynnwys ei rhoi hi mewn cwfl poeri (cwfl tebyg i sach wedi'i roi dros ben rhywun i'w atal rhag poeri) ac atalwyr coesau. Yn dilyn cyfarfod rhwng y ferch a'n hymchwilwyr, dywedodd ei gweithiwr cymdeithasol wrthym:

*""…Roeddwn i mor falch â sut yr ymatebodd XXX i'r ddau ohonoch ac fe'i gwnaethoch hi'n gyfforddus iawn… rwy'n meddwl mai dyma'r tro cyntaf mae hi erioed wedi teimlo ei bod hi'n cael ei chredu'n wirioneddol [a] bod pobl fydd yn sefyll drosti."*

### Profiadau'r heddlu o ymchwiliadau SAYH

Gall bod yn rhan o ymchwiliad SAYH fod yn brofiad o straen i swyddogion a staff heddlu, ac rydym yn cydnabod y pwysigrwydd o'u trin ag ystyriaeth a thegwch. Mae aelodau o'r heddlu wedi dweud wrthym:

*"… diolch yn fawr am…yr empathi a ddangoswyd i'r amgylchiadau y canfu'r swyddog ei hun ynddynt. Rydym yn aml yn feirniadol o'r SAYH a'i hymchwiliadau, felly dim ond pan fyddwn yn cael gwasanaeth fel hwn y mae'n iawn ein bod yn gwneud sylwadau cadarnhaol…"*

*"…Diolch eto am gynnal yr ymchwiliad cyfan hwn â'r fath ystyriaeth, gofal ac urddas tuag ataf, mae hynny wedi fy helpu'n wirioneddol…"*

*"…'dw i wedi canfod yr ymchwiliad hwn ac yn enwedig eich cyfathrebiadau ynglŷn ag ef i fod o'r safon uchaf…"*



# Ein heffaith – cymunedau

Rydym yn siarad â grwpiau a chymunedau ledled Lloegr a Chymru, gan gynnwys y rheini sydd â lefelau isel o hyder yn yr heddlu. Mae ymgysylltu ystyrlon â'r cymunedau a'r grwpiau hyn yn bwysig. Mae'n codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o system gwynion yr heddlu, ac yn y pen draw yn helpu gweithio tuag at ein hamcan o bawb yn bod yn ddigon hyderus i'w defnyddio. Weithiau rydym yn gweithio gyda chymunedau lleol ar ôl digwyddiad yn ymwneud â'r heddlu, i wrando ar eu pryderon ac edrych ar ffyrdd y gellir mynd i'r afael â thensiynau.

# Ymgysylltu, addysgu, grymuso - digwyddiad ieuenctid yn Llundain

Dywedodd gweithiwr ieuenctid a fynychodd ddigwyddiad cymunedol y gwnaethom ei redeg i bobl ifanc yn Ne Llundain am *"sesiwn ryfeddol"* a dywedodd wrthym fod y bobl ifanc *"…yn gorlifo â brwdfrydedd yn llythrennol yr holl ffordd yn ôl i Brixton"*.

Roedd y digwyddiad yn rhan o'n prosiect peilot "3 E" (ymgysylltu, addysgu, grymuso/engage, educate, empower), sy'n anelu at greu rhwydwaith o eiriolwyr ifanc ar draws Llundain sy'n gallu helpu eu cymheiriaid i ddeall a chyrchu system gwynion yr heddlu. Fe wnaethom hyn trwy roi trosolwg i'r bobl ifanc o'r system gwynion, eu cymryd trwy sut mae ymchwiliad SAYH yn gweithio, a dod â nhw ynghyd â swyddogion heddlu i adeiladu parch at ei gilydd. Dywedodd mynychwyr:

*"…roedd y bobl ifanc wedi dod yn ffrwydro â chyffro wrth iddyn nhw ganfod llwyth o bethau am eu hawliau."*

*"Diolch am sesiwn ddoe, roedd yn ardderchog… Sgyrsiau gwych ac yn wirioneddol ryfeddol i weld y newid mewn sut maen nhw'n gweld y SAYH Newid mor fawr ... [gyda] phobl ifanc yn llawn cyffro am y cyfle gyrfa o fod yn ymchwiliwr i SAYH."*

*"Diolch yn fawr am nos Fawrth - roedd yn sesiwn ryfeddol ac roeddech chi a'ch tîm yn wych. Fel gweithiwr ieuenctid gallaf weld yn wirioneddol pan fydd gofal ac angerdd wedi cael ei roi i mewn i gynllunio a chyflawni gweithdy."*

Dywedwyd wrthym yn ddiweddarach fod un o'r bobl ifanc a fynychodd y sesiwn wedi cael ei stopio a'i chwilio gan yr heddlu yn fuan wedi hynny. Cofiodd y wybodaeth roedd un o'n hymchwilwyr wedi rhoi am yr hyn mae'n ofynnol i'r heddlu ei wneud mewn stopio a chwilio a hawliau'r person sy'n cael ei stopio.

Dywedodd y person ifanc iddo atgoffa'r swyddog o ofynion cyflawni stopio a chwilio, ac ar yr adeg honno newidiodd agwedd y swyddog tuag ato'n llwyr Cyflawnodd y swyddog y stopio a'r chwilio yn gywir ac ymddiheurodd cyn gadael iddo a'i ffrindiau fynd. Roedd e'n teimlo y gallai'r sefyllfa fod wedi bod yn wahanol iawn pe na byddai wedi cael gwybod yn ddiweddar am ei hawliau mewn perthynas â stopio a chwilio.

### Gweithio gyda Sistah Space

Mae Sistah Space yn elusen sy'n cynorthwyo menywod o dras Affricanaidd a Charibïaidd sy'n cael eu heffeithio gan gamdriniaeth ddomestig a rhywiol. Mae'r SAYH a Sistah Space wedi cynnal sesiynau i gael dealltwriaeth well o waith ei gilydd.

Dywedodd Sistah Space wrthym bod ein cyfafodydd wedi rhoi ymwybyddiaeth o system gwynion yr heddlu y gallant ei throsglwyddo i'r menywod maen nhw'n eu cynorthwyo. Mae'r cyfarfodydd hefyd wedi bod yn amhrisiadwy mewn rhoi dealltwriaeth helaeth i ni o brofiadau menywod Du mewn sefyllfaoedd camdriniaeth ddomestig, a sut y gall y rhain fod yn sylweddol wahanol i rai mewnyod eraill. Dywedodd Sistah Space:

*"Gweithredodd [y SAYH] ar eu haddewid i 'wrando'n weithredol' ac o ganlyniad, mae dysgu am ein gilydd a thrafodaethau cadarnhaol wedi digwydd… rydym yn edrych ymlaen at groesawu rhagor o aelodau'r SAYH …i barhau â'n sgyrsiau anodd, a helpu i greu newid cadarnhaol".*

### Allgymorth cymunedol yng Nghaerdydd

Gweithiodd ein tîm ymgysylltu â rhanddeiliaid gyda'r gymuned leol i helpu lleddfu tensiynau sylweddol ar ôl marwolaethau trasig dau o bobl ifanc yng Nghaerdydd.

Fe wnaethom lansio ymchwiliad annibynnol i'r cysylltiad rhwng yr heddlu a'r ddau yn eu harddegau cyn eu marwolaethau. Pan fydd gan ddigwyddiad y potensial i niweidio ymddiriedaeth a hyder mewn plismona, rydym yn gwybod ei fod yn bwysig i weithredu'n gyflym i gyfathrebu â'r gymuned a'r cyhoedd yn ehangach. Yn ddealladwy roedd y gymuned wedi'i chynhyrfu am yr hyn oedd wedi digwydd, felly trefnodd ein tîm ymgysylltu â rhanddeiliaid i gyfarfod â phobl leol i esbonio ein rôl a'r ymchwiliad annibynnol a fyddai'n digwydd.

O ganlyniad, roeddem yn gallu darparu gwybodaeth allweddol i'r gymuned heb oedi. Dywedodd aelodau'r gymuned wrthym ei fod yn bwysig iddyn nhw ein bod wedi dod i gyfarfod â nhw ac ateb eu cwestiynau wyneb yn wyneb. Ategwyd hyn gan lywodraeth Cymru, a ddiolchodd i ni am ein hymgysylltiad ystyrlon a thryloyw, gan nodi bod yr ymagwedd hon yn bwysig ar gyfer ennyn hyder ymhlith y gymuned yn ein hymchwiliad."

# Diolch am y fath waith cyflym a phroffesiynol

**Adborth gan ddefnyddiwr gwasanaeth**





# Ein heffaith – atebolrwydd

Rydym yn darparu craffu annibynnol ar ymddygiad yr heddlu ac yn chwarae rôl allweddol mewn dal swyddogion i gyfrif trwy systemau disgyblaethol a throseddol. Trwy ein hymchwiliadau ac adolygiadau, byddwn yn penderfynu os oes gan rywun yn ngwasanaeth yr heddlu 'achos i'w ateb' am gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol ac y dylai wynebu achos troseddol. Rydym hefyd yn penderfynu os dylai achosion gael eu cyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron i ystyried cyhuddiadau troseddol. Mewn llawer o achosion rydym yn eu gweld, rydym yn canfod tystiolaeth o swyddogion ymroddedig yn gweithredu â'r proffesiynoldeb eithaf. Fodd bynnag, mae dal swyddogion sy'n gweithredu'n anghywir i gyfrif yn fesur diogelu hanfodol i'r heddlu a'r cyhoedd fel ei gilydd.

# Swyddogion a garcharwyd am ffurfio perthnasoedd amhriodol â menywod sy'n agored i niwed

Cafodd dau swyddog, a gamddefnyddiodd eu safleoedd trwy ffurfio perthnasoedd amhriodol â menywod sy'n agored i niwed y gwnaethant gyfarfod â nhw tra ar ddyletswydd, eu carcharu am gyfanswm o chwe blynedd a hanner. Cawsant eu heuogfarnu o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus yn dilyn cyfres o ymchwiliadau SAYH.

Dechreuodd Swyddog A berthynas rywiol amhriodol â menyw ar ôl iddo ymateb i ddigwyddiad trais domestig. Anfonodd negeseuon at y fenyw o'i ffôn personol, a chawsant ryw ar ôl iddo arestio ei phartner. Yn ystod eu perthynas dywedodd y fenyw wrtho ei bod wedi cael ei rhoi o dan bwysau i gymryd rhan mewn gweithred rywiol â swyddog arall, Swyddog B, oedd wedi mynd i'w chartref i ddelio ag adroddiad o gamdriniaeth ddomestig. Disgwyliodd i Swyddog A weithredu ar yr hyn y dywedodd hi wrtho, ond ni wnaeth.

Dechreuodd ein hymchwiliadau i'r ddau swyddog ar ôl i'r fenyw ddweud wrth swyddogion heddlu eraill sawl blwyddyn yn ddiweddarach beth oedd wedi digwydd iddi. Mynychodd y swyddogion hyn ei chartref am ddigwyddiad gwahanol. Erbyn yr adeg hon, roedd Swyddog B wedi cael ei garcharu am ymosod yn rhywiol ar ddwy fenyw wahanol tra ar ddyletswydd ac roedd wedi cael ei ddiswyddo o'r llu yn dilyn ymchwiliad gan ein rhagflaenydd, Comisiwn Annibynnol Cwynion yr Heddlu.

Yn ystod ein hymchwiliadau, daeth menyw arall yn ei blaen i ddweud ei bod hi wedi bod mewn perthynas â Swyddog A ar ôl iddo ofyn iddi ddod allan, ar ôl mynd i'w chartref mewn ymdrech i arestio ei mab. Dywedodd hi wrthym eu bod wedi cael rhyw tra'i fod e ar ddyletswydd a'i fod e wedi ei darbwyllo i ddweud celwydd i swyddog uwch am sut yr oeddent wedi cyfarfod. Dywedodd trydedd menyw wrthym fod Swyddog B wedi ysgogi rhyw tra'n mynychu digwyddiad camdriniaeth ddomestig yng nghartref ei phartner.

Wrth ddedfrydu'r ddau ddyn, diolchodd y barnwr ni am "esiampl o ymchwiliad" a dywedodd "ei fod yn profi pwysigrwydd eithriadol" y SAYH. Cafodd Swyddog A, oedd yn dal i wasanaethu ar adeg ein hymchwiliad, ei ddiswyddo o'r llu yn dilyn gwrandawiad camymddwyn. Mae wedi cael ei rwystro rhag gweithio mewn plismona.

**Arweinydd trais domestig llu yn cael ei wahardd rhag plismona**

Yn dilyn ymchwiliad SAYH, cafodd prif arolygydd ei rwystro rhag plismona am ymdrechu i ddylanwadu ar benderfyniadau swyddogion heddlu a arestiodd ddyn dan amheuaeth o gamdriniaeth ddomestig.

Mynychodd y swyddogion gyfeiriad lle roedd y prif arolygydd, nad oedd ar ddyletswydd, hefyd yn bresennol. Ni nododd ei hunaniaeth ei hun na'i reng ond dywedodd wrth y swyddogion ei fod yn "gopar". Ymdrechodd i fygwth y swyddogion a mynnodd nad oedd unrhyw drosedd wedi cael ei chyflawni, er cyfaddef yn ddiweddarach nad oedd yn dyst i'r digwyddiad. Y prif arolygydd oedd arweinydd strategol y llu ar gyfer materion trais domestig ar y pryd. Fe wnaethom ganmol y swyddogion am eu proffesiynoldeb a'u cywirdeb am wrthod caniatáu i swyddog uwch ddylanwadu ar eu penderfyniadau.

**Swyddog heddlu wedi'i garcharu am yrru peryglus**

Fe wnaethom ymchwilio i amgylchiadau gwrthdrawiad a adawodd fachgen yn ei arddegau ag anafiadau oedd wedi newid bywyd. Roedd y bachgen yn croesi'r ffordd pan gafodd ei daro gan gerbyd heddlu oedd yn gyrru ar yr ochr anghywir o'r ffordd gan swyddog oedd yn ymateb i alwad brys. Roedd y swyddog, nad oedd wedi cwblhau hyfforddiant sgiliau gyrru uwch ac oedd wedi'i ganiatáu i yrru yn unol â Rheolau'r Ffordd fawr yn unig, yn teithio ar ddwbl y terfyn cyflymder cyn y gwrthdrawiad.

Canfu ein hymchwiliad fod gan y swyddog achos i'w ateb am gamymddwyn difrifol, a chafodd hi ei diswyddo o'r llu yn dilyn gwrandawiad disgyblu. Cafodd y swyddog ei charcharu hefyd am achosi anaf ddifrifol trwy yrru'n beryglus.

**Swyddog wedi'i ddiswyddo o'r llu o ganlyniad i'n hadolygiad**

Fe wnaethom adolygu ymchwiliad heddlu i gŵyn fod swyddog wedi defnyddio grym gormodol ar ddyn. Honnodd ei fod yn cael ei ddal yn ôl gan yr heddlu pan "stompiodd" swyddog ar ei ben. Canfu ymchwiliad yr heddlu fod gan swyddog achos i'w ateb am gamymddwyn, oedd yn golygu mai'r sancsiwn mwyaf difrifol y gallai wynebu oedd rhybudd ysgrifenedig terfynol.

Gofynnodd y dyn i ni adolygu'r ymchwiliad Canfu ein hadolygiad fod gan y swyddog achos i'w ateb am y weithred fwy difrifol o gamymddwyn difrifol. O ganlyniad, ymddangosodd mewn gwrandawiad camymddwyn a chafodd ei ddiswyddo o'r llu.

**Gweithredodd swyddogion yn briodol yn ystod cadw dyn a fu farw'n ddiweddarach**

Rydym yn cael effaith wrth ddarparu craffu annibynnol mewn achosion lle mae rhywun wedi marw neu wedi cael ei anafu'n ddifrifol yn dilyn cysylltiad â'r heddlu. Rydym yn canfod yn aml bod yr heddlu wedi gweithredu'n briodol, ond mae'n bwysig ein bod yn sefydlu'r hyn a ddigwyddodd.

Fe wnaethom ymchwilio i'r amgylchiadau y bu farw dyn ynddynt yn dilyn cysylltiad â'r heddlu. Cafodd ei arestio dan amheuaeth o yrru gydag alcohol gormodol ar ôl gwrthdrawiad traffig ffordd. Llewygodd yn ddiweddarach yng ngorsaf yr heddlu ac yn anffodus bu fawr yn yr ysbyty.

Daeth post-mortem i'r casgliad y bu farw'r dyn oherwydd anaf fewnol a ddioddefwyd mewn gwrthdrawiad a gwenwyn alcohol. Canfu ein hymchwiliad na allai swyddogion fod wedi gwybod fod y dyn wedi dioddef y fath anaf, ac ar ôl iddo lewygu, fe wnaethant ymateb yn briodol, ac yn unol â'u hyfforddiant a'u canllawiau ar gyfer achosion meddygol brys. Canfu cwest yn ddiweddarach y bu'r dyn farw o ganlyniad i ddamwain traffig ffordd.



# Ein heffaith – **dysgu**

Rydym yn gwneud y mwyaf o'n heffaith trwy rannu dysgu, gweithio ar y cyd â chyrff plismona fel y Coleg Plismona a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Trwy ein hymchwiliadau ac adolygiadau, rydym yn chwilio am gyfleoedd i adnabod dysgu i helpu gwella plismona ar lefel leol neu genedlaethol, ac i atal yr un pethau rhag ddigwydd eto. Rydym hefyd yn rhannu ymarfer da â lluoedd trwy gyhoeddiadau, fel ein cylchgrawn 'Learning the Lessons', a thrwy gynnal digwyddiadau a gweithdai a sefydliadau plismona.

# Cryfhau trefniadau diogelu ar gyfer noeth chwiliadau sy'n ymwneud â phlant

Mae noeth chwiliadau, yn enwedig y rheini sy'n cynnwys datgelu rhannau preifat (chwiliadau EIP), ymhlith y pwerau mwyaf ymwthgar a ddefnyddir gan yr heddlu. Mae'n hanfodol i sicrhau bod diogelu priodol mewn grym, yn enwedig lle mae'r chwiliadau hynny'n ymwneud â phlant.

Fe wnaethom ddeg argymhelliad dysgu cenedlaethol i wella ymarfer plismona o chwiliadau EIP yn ymwneud â phlant. Cafodd ein hargymhellion eu gwneud i'r Swyddfa Gartref, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) a'r Coleg Plismona.

Cafodd ein tystiolaeth ei thynnu o sawl ymchwiliad SAYH yn ymwneud â noeth chwiliadau plant gan yr heddlu. Fe wnaethom ganfod nad oedd lles a diogelu plant yn cael eu blaenoriaethu bob amser, a bod angen i gyfreithiau plismona, hyfforddiant a chanllawiau gael eu diweddaru i'w hamddiffyn a'u diogelu yn well.

Roedd ein hargymhellion yn cynnwys galwadau:

- i'r llywodraeth ymgymryd ag adolygiad sylweddol o bwerau plismona yn ymwneud â noeth chwiliadau plant i wella diogelu
- i'r llywodraeth ddiwygio cyfreithiau perthnasol, er mwyn iddi fod yn ofynnol i heddluoedd wneud atgyfeiriadau diogelu gorfodol ar gyfer unrhyw blentyn sy'n destun EIP neu chwiliad agos.
- i'r Coleg Plismona a NPCC adolygu a diweddaru holl ganllawiau perthnasol i'r heddlu ar chwiliadau EIP er mwyn i bwyslais digonol gael ei roi ar ddiogelwch a lles y plentyn

Cafodd yr argymhellion eu derbyn. Mewn ymateb:

- bydd y Coleg Plismona yn adolygu canllawiau a hyfforddiant ar noeth chwiliadau yn ymwneud â phlant
- bydd yr NPCC a'r Coleg Plismona yn datblygu pecyn hyfforddiant i swyddogion sydd â'r pŵer i awdurdodi noeth chwiliadau o blant
- bydd yr NPCC yn gweithio gyda phrif swyddogion i sicrhau bod swyddogion heddlu yn deall y gofyniad cyfreithiol i gael oedolyn priodol yn bresennol, i helpu diogelu hawliau a lles plentyn pan fydd yn cael ei noeth chwilio

Mae ein hargymhellion hefyd wedi bwydo i mewn i ymgynghoriad gan y Swyddfa Gartref ar newidiadau arfaethedig i'r gyfraith.

Disgrifiodd un sefydliad sy'n gweithio gyda phobl ifanc yr argymhellion hyn fel: *"….cam sylweddol mewn gwella diogelu plant yn ystod noeth chwiliadau."*

### Gweithio gyda lluoedd i wella trafod cwynion am wahaniaethu hiliol

Mae gwahaniaethu hiliol yn un o'n prif feysydd ffocws. Fe wnaethom gynnal gweithdai gyda thrafodwyr cwynion heddlu i ddarparu cymorth ymarferol ar drafod cwynion oedd yn ymwneud â gwahaniaethu hiliol. Dywedodd mynychwyr:

*"Rhoddodd y gweithdy ddealltwriaeth i mi o ymadroddion a thermau roeddwn i'n anymwybodol ohonynt a rhoddodd rai teclynnau i mi ddatrys cwynion ynghylch gwahaniaethu hiliol."*

*"rhoddodd ddealltwriaeth helaeth i mi o feysydd nad oeddwn yn eu hadnabod yn flaenorol, fel microymosodedd ac ystyried plant yn oedolion pan nad ydynt."*

O'r rheini a ddarparodd adborth, dywedodd y mwyafrif fod eu dealltwriaeth o ymdrin â chwynion yn ymwneud â gwahaniaethu hiliol wedi gwella o ganlyniad i fynychu ein gweithdai.

### Rhannu dysgu a lluoedd trwy ein cylchgrawn 'Learning the Lessons'

Mae ein cylchgrawn 'Learning the Lessons' yn anelu at wella polisi ac arfer yr heddlu. Fe wnaethom gyhoeddi rhifynnau yn ddiweddar yn canolbwyntio ar y ddalfa ac iechyd meddwl. Mae heddluoedd yn dweud wrthym eu bod wedi defnyddio cynnwys y cylchgronau yn eu hyfforddiant, trafodaethau cyfarfodydd tîm, ac i wella polisïau ac ymarferion. Dywedodd un:

*"Mae llenyddiaeth fel hon yn wirioneddol allweddol i ni ddarllen a gweld beth sy'n digwydd gyda phlismona ac yn y SAYH, mae mwy o wybodaeth yma… na'r hyn a glywais neu a dderbyniais o unrhyw le arall".*

O'r rheini a ddarparodd adborth, cytunodd 96% fod y cylchgronau yn declynnau defnyddiol i helpu ysgogi newid mewn polisi ac ymafer yr heddlu.

### Rhoi terfyn ar iaith beio dioddefwyr

Fe wnaethom gyhoeddi ein canllaw, *'Rhoi terfyn ar feio dioddefwyr yng nghyd-destun trais yn erbyn menywod a merched: Pam mae iaith, agweddau, ac ymddygiadau yn bwysig'*, i helpu aelodau o'r SAYH a'r heddlu i feddwl yn feirniadol am eu hiaith, agweddau, ac ymddygiadau eu hunain ac eiddo rhai eraill.

Disgrifiodd Sam Millar, Cyfarwyddwr Rhagel Strategol yng Nghyngor Cenedlaethol penaethiaid yr Heddlu y canllaw fel:

*"…adnodd gwerthfawr …i'r system gyfan… rwy'n cefnogi'r defnydd o'r ddogfen yn gryf gan luoedd i wella'r ffordd yr ymdrinnir â dioddefwyr a goroeswyr a gwella canlyniadau i fenywod a merched."*

### Helpu trafodwyr cwynion yr heddlu i'w gael yn gywir y tro cyntaf

Mae sicrhau bod yr heddlu yn ei gael yn gywir y tro cyntaf wrth drafod cwynion yn arwain at ganlyniadau gwell i achwynwyr. Fe wnaethom greu pecyn cymorth i drafodwyr cwynion yr heddlu i sicrhau cysondeb ac ymarfer gorau helaeth wrth drafod neu ymchwilio i gwynion. Mae'r pecyn cymorth yn cwmpasu oes cwyn, o ymgysylltu cynnar â'r achwynydd i ddarparu canlyniad eglur ar y diwedd.

Fe wnaethom gyflwyno'r pecyn cymorth mewn gweithdai a gynhaliwyd gennym â thrafodwyr cwynion yr heddlu. Roedd adborth yn gadarnhaol, gydag un mynychwr yn ei ddisgrifio fel *"mewnbwn gwirioneddol addysgiadol ac mae'n darparu canllaw ardderchog ac enghreifftiau o ymarfer gorau ar gyfer cwynion".*

# Adroddiad Effaith SAYH yn 2023/24

## Unigolion a chymunedau

### Unigolion

**83%** o ymchwiliadau annibynnol craidd wedi'u cwblhau o fewn 12 mis

Mewn **139** achos fe wnaethom roi cymorth arbenigol i bobl a phlant sy'n agored i niwed

Bron i **60,000** o alwadau a negeseuon e-bost i'n Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid

### Cymunedau

**240** o weithgareddau ymgysylltu cymunedol

Rhedodd ein panel Ieuenctid **25** sesiwn ymgysylltu â phobl ifanc a'r heddlu

Fe wnaethom gyflawni gwobr Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid am y bumed flwyddyn

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE® CSE

## Atebolrwydd a dysgu

### Atebolrwydd

Cwblhad o **350** o ymchwiliadau annibynnol ac wedi'u cyfarwyddo

**3,157** o adolygiadau wedi'u cwblhau

Helpodd ein hymchwiliadau a'n hadolygiadau i gael gwared â'r rhai na ddylai wasanaethu

### Dysgu

**96%** sy'n cytuno bod cylchgrawn Learning the Lessons yn helpu i ysgogi newid mewn polisi ac arferion yr heddlu

LEARNING THE LESSONS 96%

Derbyniwyd **94%** o argymhellion dysgu gan dderbynwyr

Fe wnaethom greu canllaw ar Roi Terfyn ar Feio Dioddefwyr

## Adborth defnyddiwr gwasanaeth yn dilyn ymchwiliadau ac adolygiadau

"Yn gyntaf, gaf i ddiolch i chi am eich gwaith helaeth ar yr ymchwiliad hwn. Mae hi wedi bod yn adeg mor drawmatig i fy mab ac mae cael **rhywun o'r diwedd i wrando wedi bod yn ddyrchafol."**

"Hoffwn i fynegi fy niolchgarwch i chi am gwblhau'r adolygiad ac am wneud hynny mor gyflym ar ôl siarad â mi. Diolch am gymryd yr amser i siarad â mi i ddeall beth oedd fy mhryderon. **Teimlais eich bod wedi gwrando'n wirioneddol a dangos tosturi** am yr hyn oedd wedi digwydd..."

"Allaf i ddim diolch digon i chi am yr holl ymdrech rydych wedi ei rhoi i adolygu fy apêl. **Mae dweud fy mod i'n falch â'ch canfyddiadau ddim yn dweud digon..."**

**"Diolch am y fath waith cyflym a phroffesiynol â llinyn o ofal yn rhedeg drwyddo'n gyfan gwbl...** diolch am y fath ofal a gobaith gwych, rydych chi a'r SAYH wedi'u darparu, ac eto mae'r diolch hwn o waelod eithaf fy nghalon."

"Rwyf newydd ddarllen eich adolygiad - **Allaf i ddim diolch digon i chi.** Criais i drwyddo i gyd oherwydd eich bod wedi deall yn llwyr."




**Cysylltwch â ni i ddysgu mwy am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat arall:**

**www.policeconduct.gov.uk**

Dilynwch ni ar X: **@policeconduct**

E-bostiwch ni ar: **enquiries@policeconduct.gov.uk**

Ffoniwch ni ar: **0300 020 0096**

Negeseuwch: **18001 0207 166 3000**

Ysgrifennwch atom:
**Independent Office for Police Conduct**
**PO Box 473**
**Sale M33 0BW**

**© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2024)**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd ar y wefan hon fel deunydd sy'n perthyn i drydydd partïon. Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.